

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 18 Ebrill 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

Cynnwys

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

Cysylltiad Cyngor Celfyddydau Cymru wrth Flaenoriaethu Polisiâu

C4 Alun Cairns: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y rhan a chwaraeir gan Gyngor Celfyddydau Cymru o ran ei helpu i flaenoriaethu polisiâu? (OAQ16913) *Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.*

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson): Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n un o'r prif bartneriaid yn y broses o gyflawni'r cynlluniau gweithredu yn fy strategaeth diwylliant 'Creative Future: Cymru Greadigol'. Mae hefyd yn aelod o Gymru'n Creu ac yn cyfrannu'n effeithiol i'r fforwm hwnnw.

Byddaf yn cwrrd â chynrychiolwyr cyngor y celfyddydau yn ffurfiol ddwywaith y flwyddyn i drafod materion sydd o ddiddordeb i bawb ac mae swyddogion yn cysylltu'n rheolaidd â'u swyddogion cyfatebol i drafod blaenoriaethau a cheisio cyngor.

Hybu Cyfle Cyfartal mewn Rygbi a Phêl-droed

C7 Alun Pugh: A all y Gweinidog wneud datganiad am sut y mae'n bwriadu hybu cyfle cyfartal mewn rygbi a pêl-droed? (OAQ16921)

Jenny Randerson: Yr wyf yn gwbl ymroddedig i hybu cyfle cyfartal, nid yn unig mewn rygbi a pêl-droed, ond ymhob chwarae yng Nghymru.

O ran pêl-droed, mae'r fforwm pêl-droed yn mynd i'r afael â'r mater hwn fel rhan o'm strategaeth i ddatblygu pêl-droed yng Nghymru ar gyfer pobl ifainc, i greu cyfleoedd i bawb fod yn rhan o'r gêm.

Mae Undeb Rygbi Cymru eisoes yn mabwysiadu polisiâu i sicrhau bod cyfle i bawb: er enghraifft, yn sicrhau bod merched a bechgyn hyd at 13 oed yn cael cyfleoedd i chwarae mewn system strwythuredig.

Cyllid y Loteri ar gyfer Chwaraeon a'r Celfyddydau

C8 Pauline Jarman: Beth yw hynt ymdrechion parhaus Llywodraeth Cymru i gynyddu cyfran Cymru o gyllid y loteri ar gyfer chwaraeon a'r celfyddydau? (OAQ16873)

Jenny Randerson: Cyfeiriaf at yr ateb a roddais i gwestiwn Jocelyn Davies (OAQ16868) yn gynharach heddiw. Byddaf yn bwrw ymlaen i sicrhau cyfran uwch o gyllid y loteri ar gyfer chwaraeon a'r celfyddydau yng Nghymru.

Gêm Derfynol Cwpan yr FA

C9 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog gefnogi camau i ddod â Gêm Derfynol Cwpan yr FA i Stadiwm y Mileniwm yn barhaol? (OAQ16882)

Jenny Randerson: Mae Stadiwm y Mileniwm ccc wedi taro ar gytundeb gyda'r Gymdeithas Bêl-droed i gynnal gêm derfynol Cwpan y Gymdeithas hyd at fis Mai 2005. Cyfrifoldeb y Gymdeithas Bêl-droed yw penderfynu ar leoliad gêm derfynol Cwpan y Gymdeithas. Yr wyf wedi dweud ar sawl achlysur y byddwn yn croesawu gweld gêm derfynol Cwpan yr FA yn ddigwyddiad parhaol yng Nghymru ond mater i'r Gymdeithas Bêl-droed yw hwn.

Serch hynny, cefnogaf yn llwyr unrhyw ymgais i ddenu unrhyw ddigwyddiad mawr i Gymru, ac mae hyn yn un o amcanion fy strategaeth diwylliant 'Creative Future: Cymru Greadigol', a lansiais yn gynharach eleni.

Ymweliad â Gwlad y Basg

C10 Dafydd Wigley: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr am ei hymweliad diweddar â Gwlad y Basg? (OAQ16862) [W]

Jenny Randerson: Ymwelais â Gwlad y Basg rhwng 9 a 12 Ebrill gyda Chadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Bu'r ymweliad yn fodd inni gael cipolwg gwerthfawr ar y gwaith a wnaethpwyd i gynnal y Fasgeg dros yr 20 mlynedd diwethaf, a chymharu'r sefyllfa â Chymru. Bûm yn trafod hefyd â Gweinidogion Gwlad y Basg dros ddiwylliant a chwaraeon.

Cefnogi'r Celfyddydau yng Nghanol De Cymru

C11 Jonathan Morgan: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'r Cynulliad yn cefnogi'r celfyddydau yng Nghanol De Cymru? (OAQ16877)

Jenny Randerson: Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi datblygiad Canolfan Mileniwm Cymru a chais Cyngor Sir Caerdydd am statws Prifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008.

Yn ogystal, rhoddwyd dros £4 miliwn mewn grantiau cyngor y celfyddydau i ardal Canol De Cymru yn y flwyddyn ddiwethaf.

Cwmnïau Celfyddydau Perfformio Cenedlaethol Cymru

C12 Tom Middlehurst: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer cwmnïau celfyddydau perfformio cenedlaethol Cymru yn y dyfodol? (OAQ16860)

Jenny Randerson: Cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru gynnydd o 15 y cant yn ei gyllid i'w holl gleientiaid refeniw. Mae hefyd yn sefydlu cynllun sefydlogi y bydd pob cleient refeniw yn gymwys i fod yn rhan ohono. Cyhoeddwyd cynllun sefydlogi ar gyfer Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru eisoes, mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Lloegr.

Cyfraniadau i Ganolfan y Mileniwm Cymru

C13 Peter Law: Pa gyfraniadau y mae cyrff y sector cyhoeddus yn eu gwneud i Ganolfan y Mileniwm Cymru? (OAQ16863)

Jenny Randerson: Yr oedd y pecyn cyllid ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru, gan gynnwys y cyfraniadau gan gyrff y sector cyhoeddus, ar gael i bob Aelod o'r Cynulliad yn dilyn y Cyfarfod Llawn ar 22 Ionawr, ac mae fel a ganlyn:

Cyfanswm Cost y Prosiect: £104 miliwn

Prif ffynonellau nawdd

Llywodraeth Cynulliad Cymru	Comisiwn y Mileniwm	Cyngor Celfyddydau Cymru Grant loteri	Awdurdod Datblygu Cymru/ Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd / Bwrdd Croeso Cymru	Nawdd ychwanegol o'r sector preifat
Hyd at £37 miliwn	£31 miliwn	£10 miliwn	£6 miliwn	£20 miliwn + (y mae £11 miliwn ohono eisoes wedi ei glustnodi)

Rhennir y gost o £104 miliwn fel a ganlyn:

Cyfanswm y gyllideb adeiladu (gan gynnwys dodrefnu a TG), gyda £77.5 miliwn ohono'n gytundeb adeiladu gan gynnwys y ffioedd	£97 miliwn
Costau cyn –agor	£7 miliwn
Cyfanswm	£104 miliwn

Tynnwyd cwestiwn 14 (OAQ16858) yn ôl.

Creative Future: Cymru Greadigol

C15 Delyth Evans: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am 'Creative Future: Cymru Greadigol'? (OAQ16854)

Jenny Randerson: Lanswyd fy strategaeth diwylliant 'Creative Future: Cymru Greadigol' yn ffurfiol ar 7 Chwefror 2002 yn y Ffatri Bop yn y Porth. Byddaf yn mynychu nifer o ddigwyddiadau lansio eraill ledled Cymru i dynnu sylw at y strategaeth yn y cyfnod sy'n arwain at doriad yr haf.

Mae'r gwaith ar y cynlluniau gweithredu yn mynd rhagddo. Byddaf yn trafod y datblygiadau hyd yn hyn a sut i fwrw ymlaen â chymau eraill gyda'n partneriaid i gyflawni'r strategaeth yng nghyfarfod Cymru'n Creu ym mis Mai. Byddaf hefyd yn adrodd yn rheolaidd ar y datblygiad i Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad

Cymorth ar gyfer Arallgyfeirio i'r Diwydiant Twristiaeth

C3 Alun Cairns: Pa gymorth sydd ar gael i ardaloedd gwledig i'w helpu i arallgyfeirio i'r diwydiant twristiaeth? (OAQ16898) *Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.*

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad (Carwyn Jones): Mae sawl ffordd ar gael i helpu i arallgyfeirio i'r diwydiant twristiaeth mewn ardaloedd gwledig. Ymhlith y rhain y mae grant twristiaeth fferm, sydd ar gael trwy Cyswllt Ffermio, a chynllun cefnogi buddsoddiad gan Fwrdd Croeso Cymru.

Tynnwyd cwestiynau 4 (OAQ16891) ac 8 (OAQ16890) yn ôl. Atebwyd cwestiynau 5-7 yn y Cyfarfod Llawn

Dyfodol Amaethyddiaeth yng Nghymru

C9 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch unrhyw drafodaethau y mae wedi eu cynnal â'r Gweinidog Gwladol dros Faterion Gwledig ynghylch dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru? (OAQ16925)

Carwyn Jones: Yr wyf yn cwrrd yn rheolaidd â Gweinidogion y Deyrnas Unedig â chyfrifoldeb am amaethyddiaeth a materion gwledig i drafod materion sydd o ddiddordeb i bawb. Cyfarfuom ddiwethaf ar 13 Chwefror.

Pysgota yn Nyfroedd Cymru

C10 John Griffiths: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y sefyllfa ddiweddaraf mewn o ran pysgota yn nyfroedd Cymru? (OAQ16928)

Carwyn Jones: Diolchaf i John am ei ragrybudd y byddai'r cwestiwn yn ymwneud â phryderon ynghylch effaith cynigion Asiantaeth yr Amgylchedd i reoli eogiaid yn y dyfodol ar Bysgodfa Eogiaid Blackrock lle defnyddir rhwydi lampa traddodiadol.

Os bydd Asiantaeth yr Amgylchedd, yng ngoleuni'r ymarfer diweddar hwn, yn bwriadu llunio is-ddeddfau, bydd angen ymgynghori pellach cyn y gellir cyflwyno cynigion ffurfiol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i gael penderfyniad arnynt.

Cysylltiadau â Phrosiect Tellus

C11 Cynog Dafis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gysylltiadau'r Cynulliad Cenedlaethol â phrosiect Tellus? (OAQ16902)

Carwyn Jones: Bwriad y prosiect Tellus, a ddatblygwyd gan Gyngor Ffermwyr Ifainc Ewrop, yw darparu deunyddiau addysgol i ysgolion cynradd i sicrhau bod plant ledled Ewrop yn ymwybodol o fyd amaeth. Cymeradwyaf yr egwyddor gyffredinol o godi ymwybyddiaeth ynghylch y diwydiant, gyda'r bwriad yn y dyfodol o gynorthwyo a denu pobl ifainc. Fodd bynnag, mae hyrwyddwyr y prosiect eto i ddangos ei effeithiolrwydd lle mae Cymru yn y cwestiwn.

Cytundebau rhwng Landlordiaid a Thenantiaid (Tir Gofal)

C12 Peter Rogers: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Gynllun Tir Gofal mewn perthynas â chytundebau blaenorol rhwng landlordiaid a thenantiaid? (OAQ16887) [R]

Carwyn Jones: O dan reolau'r cynllun, rhaid i denantiaid hysbysu'r landlord eu bod yn bwriadu ymgymryd â chynllun Tir Gofal. Darperir ffurflen hysbysu landlord yn y pecyn ymgeisio i'w gynorthwyo yn y broses hon.

Mewn achosion lle'r ymddengys fod anghydfod difrifol rhwng y landlord a'r tenant, ni fydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru fel arfer yn ymgymryd â chytundeb Tir Gofal oni fydd, neu hyd nes bydd, yr anghydfod wedi ei ddatrys.

Cefnogaeth ar gyfer Trosi i Gynhyrchu'n Organig

C13 Alison Halford: Pa gymorth ariannol hirdymor sy'n cael ei ddarparu i gefnogi ffermydd yng Nghymru sy'n penderfynu trosi i gynhyrchu'n organig? (OAQ16924)

Carwyn Jones: Yr wyf yn ymwybodol o'r dadleuon o blaid rhoi cymhorthdal parhaus i ffermio'n organig, yn enwedig o gydnabod ei fanteision i'r amgylchedd. Serch hynny, mae'r ddadl dros gymhorthdal o'r math eto i'w brofi'n derfynol. Yr wyf felly wedi gofyn i'r is-grwp amaeth-amgylchedd

sy'n rhan o grŵp llywio diwygio'r polisi amaeth cyffredinol ystyried y materion ac adrodd yn ôl gan roi argymhellion.

Ceisiadau ar gyfer Cynllun Tir Gofal

C14 Alun Cairns: Faint o amser y mae'n rhaid i ffermwyr aros ar hyn o bryd i'w ceisiadau ar gyfer cynllun Tir Gofal gael eu prosesu? (OAQ16897)

Carwyn Jones: Dylai'r £1.5 miliwn ychwanegol y flwyddyn ar gyfer cynllun Tir Gofal, a gyhoeddais ym mis Chwefror, alluogi pob cais presennol i ymuno â'r cynllun yn ddiweddarach eleni neu'n ystod 2003.

Hybu Marchnadoedd Ffermwyr

C15 Peter Black: Pa gamau sy'n cael eu cymryd i hybu marchnadoedd ffermwyr? (OAQ16908)

Carwyn Jones: Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y marchnadoedd ffermwyr yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol. Mae Cyfarwyddiaeth Fwyd Awdurdod Datblygu Cymru, drwy'r bartneriaeth bwyd-amaeth, yn cefnogi nifer o gynlluniau ledled Cymru, a gwelwyd datblygu marchnadoedd ffermwyr newydd ym mhob cwr o Gymru.